Gwarcheidiaeth ar gyfer Plant Digwmni yng Nghymru: briff ar weithrediad

Chwefror 2025

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae Ceiswyr Lloches sy'n Blant Digwmni yn cyrraedd Cymru ar eu pen eu hunain, ac nid oes ganddynt rieni i sefyll wrth eu hymyl nac amddiffyn eu buddiannau.
- Mae Plant Digwmni mewn sefyllfa arbennig o agored i niwed, yn aml yn ffoi cyd-destunau o drawma neu erledigaeth. Mae ansicrwydd ynghylch eu statws yn y dyfodol yn gofyn am Gynllunio Triphlyg ofyn ar gyfer tri chanlyniad cyfreithiol posibl, a chymorth emosiynol a seicolegol ychwanegol.
- Nid oes gan wasanaethau presennol yng Nghymru gynhwysedd neu'r arbenigedd perthnasol i ddarparu'r cymorth hanfodol sydd ei angen ar y plant hyn.
- Yn ein 'Cenedl o Noddfa' sy'n 'Parchu Hawliau Plant', rhaid i ddiogelu a chefnogi ein plant mwyaf agored i niwed fod yn flaenoriaeth. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chomisiynydd Plant Cymru wedi galw dro ar ôl tro am wasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol i'r holl Blant Digwmni yng Nghymru.
- Gwasanaeth Gwarcheidiaeth annibynnol ar gyfer yr holl Blant Digwmni yng Nghymru yw'r unig ffordd i roi'r cymorth a'r amddiffyniad sydd eu hangen ar Blant Digwmni.

Awduron

Isata Kanneh, Sefydliad Bevan
Lee Evans, TGP Cymru
Dr. Rhian Croke, Canolfan Cyfreithiol y Plant Cymru
Tom Davies, The Children's Society

Ynglŷn â'r briff hwn

Cafodd y briff hwn ei gynhyrchu ar y cyd gan Gymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan, Canolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, a TGP Cymru. Mae'n seiliedig ar gyfuniad o wybodaeth gan bob un o'r pedwar partner, eu hymchwil i bwnc Gwarcheidiaeth i Blant ar eu Pen eu Hunain, a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol.

Cydnabod

Rydym yn ddiolchgar i TGP Cymru a Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST) am ddarparu gwybodaeth fanwl ac astudiaethau achos i gefnogi'r papur hwn.

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gyda chefnogaeth gan The Justice Together Initiative

Cysylltiadau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y briff hwn, cysylltwch â:

Tom Davies – Tom.Davies@childrenssociety.org.uk

Isata Kanneh – isata.kanneh@bevanfoundation.org

Dr. Rhian Croke - rhian.croke@swansea.ac.uk

Lee Evans – lee.evans@tgpcymru.org.uk

Caniatâd i rannu

Mae'r gwaith hwn wedi'i drwyddedu o dan Creative Commons Attribution-Non-Commercial-No-Derivatives 4.0 International. I weld copi o'r ddogfen hon, ewch i: https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Cynnwys

..... 1

1. Rhagymadrodd 3

2. Egwyddorion allweddol Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru 4

3. Y model Gwarcheidiaeth yr Alban 5

4. Pam na ellir defnyddio gwasanaethau presennol? 5

4.1 Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol (ICTG): 6

4.2 "Cynnig Rhagweithiol" Eiriolaeth: 6

4.3 Mae Cynghorwyr Cymdeithasol Personol (PSAs) 6

4.4 Mae Gweithwyr Cymdeithasol 7

5. Beth yw effeithiau peidio â chael gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar blant? 7

5.1 Asesiad Oed: 7

5.2 Mwy o drosglwyddiadau i Gymru a diffyg cefnogaeth: 8

5.4 Gwasanaethau gofal gadael annigonol: 8

5.5 Arwahanrwydd ac unigrwydd: 8

5.6 Rhwystrau cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder: 9

5.7 Gwahaniaethau o ran cefnogaeth: 11

6. Pam fod angen i'r gwasanaeth fod yn annibynnol? 11

7. Oni fydd gwasanaeth arall yn arwain at "orlwytho proffesiynol"? 12

8. Sut byddai'r gwasanaeth yn cael ei ariannu? 13

9. Casgliad 13

1. Rhagymadrodd

Roedd ein papur briffio ymchwil *Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar gyfer pob Plentyn Digwmni yng Nghymru*[1], a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024, yn dadlau'r achos dros sefydlu Gwasanaeth Gwarcheidiaeth annibynnol i Blant Digwmni yng Nghymru. Ers ei gyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i "archwilio sut y gallai gwasanaeth gwarcheidiaeth weithio, yr adnoddau sydd eu hangen i'w weithredu a'r trawsdoriad â chymorth statudol arall megis cynghorwyr personol a darpariaeth eiriolaeth."[2] Ategwyd hyn gan sylwadau a wnaed yn y Cyfarfod Llawn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol:

> *"Rydym yn falch o fabwysiadu ymagwedd plentyn yn gyntaf, mudwr yn ail sy'n cynnal buddiannau a hawliau plant digwmni sy'n geiswyr lloches. Rydw i hefyd yn cydnabod bod gennym gyfrifoldebau drwy ein cydymffurfiaeth â CCUHP."*[3]

Yn ei *Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24*[4], argymhellodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei chefnogaeth i gynllun Gwarcheidiaeth cenedlaethol ar gyfer Plant Digwmni yng Nghymru, a nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i roi'r cynllun ar waith.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 335 o blant digwmni yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru[5]. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers 2021, pan oedd y ffigwr yn 65 o Blant Digwmni.

Fel rhan o'i hymchwiliad i wasanaeth Gwarcheidiaeth posibl, mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth yr Alban i gael dealltwriaeth o Fodel Gwarcheidiaeth yr Alban, ac ynghyd â Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru wedi ymgynghori ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae awduron y papur hwn wedi parhau i sgwrsio â Gweinidogion, Aelodau'r Senedd, y Comisiynwyr ac eraill am yr angen am Warcheidiaeth ar gyfer Plant Digwmni yng Nghymru. Mae'r papur briffio hwn yn ceisio mynd i'r afael â rhai cwestiynau sydd wedi codi yn sgil y trafodaethau hyn.

Gwnaeth ein papur briffio ymchwil yr achos dros wasanaeth Gwarcheidiaeth, ond ni fanylodd ar ei weithrediad. Rydym yn eirioli dros wasanaeth sy'n dilyn model Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban, sy'n darparu cymorth ac arweiniad cynhwysfawr i Blant Digwmni, gan arwain at well rhagolygon ar gyfer y dyfodol a chanlyniadau cyfreithiol gwell. Bydd unrhyw ymgais i leihau costau drwy leihau'r cynnig i blant neu leihau ei annibyniaeth yn tanseilio gwerth, ac yn arwain at ganlyniadau gwaeth i blant. Mae model Gwarcheidiaeth yr Alban yn amddiffyn Plant Digwmni, ac yn sicrhau bod materion a amlinellir yn y papur hwn a'r astudiaethau achos a gyflwynir yn cael eu hosgoi neu'n cael sylw.

2. Egwyddorion allweddol Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yng Nghymru

Er mwyn amddiffyn a chefnogi Plant Digwmni, ac i gyd-fynd â sylwadau Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rhaid i'r gwasanaeth fod:

- Ar gael i bawb: gwasanaeth cenedlaethol sydd ar gael i bob Plentyn Digwmni y mae Cymru'n gyfrifol amdano, lle bynnag y mae'n byw.
- Ar gael wrth gyrraedd: yn cael ei benodi i bob Plentyn Digwmni yn syth ar ôl iddo gyrraedd Cymru neu pan drosglwyddir cyfrifoldeb i awdurdod yng Nghymru. Mae gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref, y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol, llety lloches a gwestai yn hanfodol, fel bod plant yn cael eu hadnabod yn gyflym, eu cefnogi, a'u lleoli'n briodol.
- Yn annibynnol ar y wladwriaeth, awdurdodau lleol, y Llysoedd, a phob corff statudol arall. Yn abl i amddiffyn hawliau a buddiannau plant heb ofn na ffafr.
- Yn hyfforddedig ac arbenigol: Gwarcheidwaid sy'n fedrus mewn cefnogi ac eiriol dros blant, wedi'u hyfforddi i Lefel 2 OISC neu gyfwerth IAAS, neu'n gweithio tuag at y cymwysterau hyn.
- Yn integredig ac effeithlon: yn gweithio'n agos ac yn gefnogol gyda gweithwyr cymdeithasol, cynghorwyr cyfreithiol, gweithwyr achos y Swyddfa Gartref, Migrant Help, ysgolion, colegau, ysbytai, ac asiantaethau trydydd sector sy'n gweithio ym maes cymorth lloches a lles plant.
- Yn gefnogol ac ymgysylltiol:
  - meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd cefnogol gyda phlant
  - helpu gyda chyfeiriadedd ac addasu cymdeithasol
  - rhagweithiol wrth gael cyngor cyfreithiol, cynrychiolaeth, a chefnogaeth drwy'r broses gyfreithiol
  - esbonio a hysbysu am y gwasanaethau sydd ar gael, y penderfyniadau a wneir, a'r opsiynau sydd gan blant
  - eirioli a sicrhau bod lleisiau a dewisiadau plant yn cael eu clywed a'u parchu
  - hwyluso presenoldeb ac ymgysylltiad y plentyn mewn cyfarfodydd ac mewn gwneud penderfyniadau
  - gwneud cyfeiriadau at wasanaethau arbenigol (e.e. i fynd i'r afael â phryderon iechyd corfforol neu feddyliol neu drawma, neu ddarparu gwasanaethau diwylliannol, cymdeithasoli, neu chwarae sy'n briodol i anghenion y plentyn).
- Yn barhaol a grymusol: gan ddarparu cymorth ac amddiffyniad parhaus i blant wrth iddynt dyfu tuag at annibyniaeth a bod yn oedolyn, hyd yn oed os ydynt wedi gadael gofal.

- Yn diogelu hawliau a chyfiawnder: yn cael eu grymuso i siarad ar ran y plant y maent yn gweithio gyda nhw, i amddiffyn eu buddiannau, a hyrwyddo ac amddiffyn eu hawliau.
- Yn meddu ar adnoddau da: yn gallu darparu cymorth parhaus a chynhwysfawr a chael mynediad at hyfforddiant parhaus, adnoddau wedi'u diweddaru, a gwybodaeth berthnasol.
- Yn ymatebol ac yn canolbwyntio ar y plentyn: yn cynnwys plant yn ei ddatblygiad, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion.

3. Y model Gwarcheidiaeth yr Alban

Mae gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban yn darparu model "rhagorol", sy'n dangos bod gan sefydliad cyfatebol yng Nghymru y potensial i wella bywydau Plant Digwmni a hefyd i gefnogi gweithwyr cymdeithasol, rolau statudol eraill, ac asiantaethau eraill. Fel ym model yr Alban, byddai gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol yng Nghymru yn helpu Plant Digwmni i lywio'r system loches gymhleth ac i sicrhau bod gweithdrefnau megis asesiadau oedran yn cael eu cynnal er lles gorau plant. Byddai'r gwasanaeth yn lleihau cyfnodau coll, troseddoli a chamfanteisio. Nodwyd hyn yn fwyaf diweddar fel maes pryder sylweddol mewn adroddiad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd[6]. Mae Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban yn nodi pan fydd gwarcheidwad yn gysylltiedig, bod nifer y plant sydd ar goll yn isel iawn.

4. Pam na ellir defnyddio gwasanaethau presennol?

> "Mae **[A]** o dan ofal awdurdod **[X]** ac yn cael lwfans wythnosol o £65. Bu'n rhaid iddo aros am ddau fis ar ôl cyrraedd De Cymru i gael eiriolwr."
>
> EYST

Nid oes gwasanaeth ar hyn o bryd sy'n cyflawni rôl gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar gyfer pob Plentyn Digwmni. Mae'n ofynnol i Blant Digwmni lywio llwybr cymhleth mewn tirwedd gyfreithiol sy'n newid yn aml. Mae angen cymorth dwys, arbenigol arnynt gan rywun sydd ag arbenigedd eang mewn eiriolaeth, cefnogi plant a'r rhai sy'n gadael gofal, a'r rhyngwyneb cymhleth rhwng y broses lloches a'r system ofal.

Mae gwasanaethau presennol yn aml yn cael eu nodweddu gan ddiffyg amser ac adnoddau. Byddai darparu'r gwasanaeth fel "ychwanegiad" i wasanaethau presennol, sydd eisoes yn aml dan bwysau, yn peri risg sylweddol. Mae cyllid digonol ac annibyniaeth oddi wrth y llywodraeth, awdurdodau lleol, a gwasanaethau cymdeithasol yn hanfodol (gweler isod).

4.1 Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol (ICTG): Mae gan Gymru fynediad i'r gwasanaeth hwn ar gyfer Cymru a Lloegr, y mae ei gymorth wedi'i gyfyngu i blant y nodwyd eu bod yn ddioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern a masnachu mewn plant. Nid yw'r gwasanaeth ar gael i bob plentyn mudol sydd wedi'i wahanu, fel y mae Gwasanaeth Gwarcheidiaeth yr Alban, gan adael anghenion llawer o Blant Digwmni heb eu diwallu. Ymrwymodd Llywodraeth y DU i gyflwyno'r Gwasanaeth ICTG yn genedlaethol, ond dim ond i ddwy ran o dair o'r holl awdurdodau lleol y mae wedi'i gyflwyno, ac mae galw cynyddol am y gwasanaeth

4.2 "Cynnig Rhagweithiol" Eiriolaeth: Rhaid hysbysu pob plentyn yng Nghymru sydd dros bump oed ac sy'n newydd i fywyd mewn gofal neu sy'n ymwneud â gwasanaethau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, o'u hawl i eiriolaeth. Bydd Cyfarfod Cynnig Rhagweithiol gydag eiriolwr yn cael ei drefnu ar eu cyfer os ydynt yn dymuno hynny. Mae anawsterau gyda'r dull hwn ar gyfer Plant Digwmni. Yn gyntaf, mae'r Cyfarfod Cynnig Rhagweithiol yn cynnwys gwybodaeth y gallai fod yn anodd i Blant Digwmni i'w brosesu. Maent ar gam cynnar yn eu bywyd mewn gofal ac yn aml caiff eu ffocws ei ddominyddu gan eu cais am loches, cerdyn adnabod, a mynediad i goleg, nad ydynt efallai'n eu cysylltu ag eiriolaeth ar sail materion. Ymhellach, mae TGP Cymru yn adrodd nad yw pob awdurdod lleol yn cadw at egwyddorion y Cod Ymarfer Eiriolaeth ac nad yw Plant Digwmni bob amser yn cymryd rhan lawn yn eu proses cynllunio llwybr.

Byddai gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol yn dyrannu gwarcheidwad yn awtomatig i bob Plentyn Digwmni, a byddai'n mynd y tu hwnt i eiriolaeth, gan sicrhau bod plant yn cael cymorth priodol ac arbenigol gyda'u cais am loches a materion allweddol eraill yn eu bywydau, yn ogystal â chymorth ymarferol ac emosiynol cyson sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ei gyfanrwydd, nid ar un mater penodol

4.3 Mae Cynghorwyr Cymdeithasol Personol (PSAs) yn darparu cymorth yn bennaf i blant dros 16 oed, er bod rhai awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaeth i blant 15 oed. Prif rôl PSA yw cefnogi cynllunio llwybrau a'r pontio i fyd oedolion, sydd ddim ond yn rhan o anghenion Plentyn Digwmni. Nid yw'r rhan fwyaf o PSAau yng Nghymru wedi'u hyfforddi mewn cyfraith mewnfudo a lloches, sy'n hanfodol ar gyfer Cynllunio Triphlyg (cynllunio ar gyfer tri chanlyniad posibl i'r hawliad lloches), ac nid ydynt yn annibynnol ar yr awdurdod lleol. Efallai y byddant yn colli camau cyfreithiol hanfodol sy'n effeithio'n ddifrifol ar fywyd plentyn yn y dyfodol. Mae bod yn Blentyn Digwmni sy'n ceisio lloches yn ychwanegu haenen enfawr o gymhlethdod i fywyd plentyn, sy'n gofyn am gefnogaeth arbenigol ac ymroddedig. Nid yw'r rhan fwyaf o Blant Digwmni o dan 16 oed yn cael cymorth PSA.

4.4 Mae Gweithwyr Cymdeithasol n darparu cymorth parhaus i blant, ond yn aml nid oes ganddynt wybodaeth lloches arbenigol. Er bod hyfforddiant mewn lloches a mewnfudo ar gael, mae hwn yn faes cymhleth ac mae angen cryn dipyn o ymrwymiad amser i gyrraedd y lefelau arbenigedd y gall gwarcheidwad eu darparu. Mae pryderon difrifol ynghylch gallu gweithwyr cymdeithasol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen i fynd gyda phlentyn drwy gais am loches. Yn 2023, adroddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod dros 79 y cant o weithwyr cymdeithasol yng Nghymru a ymatebodd i arolwg wedi nodi na allent gwblhau eu gwaith o fewn eu horiau contract. Nid ychwanegu cyfrifoldebau ychwanegol at rôl y gweithiwr cymdeithasol yw'r ateb i blant nac i awdurdodau lleol. Gwasanaeth annibynnol, arbenigol gydag arbenigedd lloches yn allweddol i sicrhau bod Plant Digwmni yn cael y lefel ac ansawdd o gymorth sydd ei angen arnynt.

5. Beth yw effeithiau peidio â chael gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar blant?

> *"O waith achos a gwaith cyfranogiad gyda channoedd o [Blant Digwmni] dros y chwe blynedd a mwy diwethaf, lle rydym yn gwrando ar ddymuniadau, teimladau a syniadau pobl ifanc, mae'n ymddangos bod sawl her iddynt gyrraedd eu llawn botensial ac i'w hanghenion mwy sylfaenol gael eu diwallu o ran eu datblygiad a'u gallu i ffynnu... Maent yn wynebu rhwystrau, ac nid yw bod yng ngofal awdurdod lleol yn ddigon iddynt eu goresgyn. Ar adegau, gall diffyg adnoddau, gallu, sgiliau, hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad o fewn y system ofal gyfrannu at y ffaith nad yw canlyniadau cystal ag y gallent fod. Mae pobl ifanc sydd â statws ffoadur a'r rhai heb yr hawl i weithio yn cael eu temtio i wneud gwaith â chyflog isel mewn rhai ardaloedd, a chael eu hecsbloetio."*
>
> *Lee Evans, TGP Cymru*

Mae TGP Cymru yn adrodd ar y tueddiadau canlynol sy'n effeithio ar Blant Digwmni yng Nghymru:

5.1 Asesiad Oed: Mae oedi wrth asesu plant sy'n destun anghydfod a diffyg Oedolion Priodol addas yn effeithio ar Blant Digwmni yng Nghymru. Mae TGP Cymru yn adrodd am ôl-groniad o asesiadau oedran "hen bryd" y daethant yn ymwybodol ohonynt mewn un awdurdod lleol 18 mis yn ôl: "Dywedodd y bobl ifanc wrthym fod yr oedi yn peri gofid, yn effeithio ar eu cwsg a'u hiechyd meddwl, yn amharu ar eu haddysg a phrosesu eu cais am loches a cherdyn cofrestru cais (ARC)."

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol eraill wedi bod yn ailystyried asesiad oedran plant a dderbyniwyd i ofal hyd at ddwy flynedd yn ôl. Dywed TGP Cymru ei bod yn ymddangos bod hyn ar gais neu awgrym y Swyddfa Gartref yn

hytrach na bod yn rhywbeth y mae'r awdurdod lleol wedi'i gychwyn. Disgrifir achosion asesu oedran fel "ffrwd gyson", gan gynnwys plant nad ydynt wedi'u cyflwyno i unrhyw awdurdod lleol o'r blaen, yn ogystal â'r rhai sydd wedi cael penderfyniad negyddol ac y mae angen cymorth arnynt i ymchwilio i her gyfreithiol. Gall gwarcheidwaid weithio gyda gweithwyr cymdeithasol i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o wybodaeth, a bod plant yn cael yr help sydd ei angen arnynt.

Byddai gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol yn darparu Gwarcheidwaid y mae plant yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt, a all weithredu fel oedolion priodol a ffrindiau cyfreitha ar gyfer Plant Digwmni. Byddai gan warcheidwaid sgiliau a hyfforddiant arbenigol i ymdrin â cheisiadau asesu oedran a gallant gefnogi plant cyn, yn ystod ac ar ôl y broses asesu oedran. Byddai annibyniaeth a gwybodaeth gyfreithiol yn galluogi Gwarcheidwaid i ddarparu her gadarn i anghydfodau oedran afresymol.

5.2 Mwy o drosglwyddiadau i Gymru a diffyg cefnogaeth: Mae niferoedd uwch o blant sy'n dod i Gymru drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol wedi arwain at weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad cyfyngedig neu ddim profiad o gwbl o'r broses lloches yn gorfod cynnig cymorth i Blant Digwmni. Mae nifer y Plant Digwmni yng Nghymru wedi codi o 65 yn 2021 i 335 yn 2024. Byddai sefydlu gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol nawr yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau lleol, ac yn darparu gwybodaeth i weithwyr cymdeithasol a chymorth arbenigol i blant cyn i'r system gyrraedd pwynt argyfwng.

5.4 Gwasanaethau gofal gadael annigonol: Mae TGP Cymru yn adrodd am lety lled-annibynnol gydag ychydig iawn o gefnogaeth, gan arwain at risgiau diogelu a chamfanteisio, yr angen am fodelu rôl cadarnhaol i oedolion, ac ymholiadau gan weithwyr proffesiynol o fewn a thu allan i awdurdodau lleol ynghylch a yw'r math hwn o leoliad yn addas i ddiwallu anghenion person ifanc. Mae plant yn y sefyllfa hon wedi dweud eu bod yn teimlo'n ynysig ac allan o gysylltiad â'r gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am eu gofal. Unig ffocws gwarcheidwad yw'r plentyn, a gallant gynnig cyswllt, arweiniad ac eiriolaeth gyson.

5.5 Arwahanrwydd ac unigrwydd: Mae'r rhan fwyaf o Blant Digwmni yn cyrraedd Cymru ar ôl cael eu symud gan y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol heb ddewis. Wedi'u gwahanu oddi wrth ffrindiau y mae ganddynt fondiau pwysig â nhw, a thrawma'r gorffennol wedi effeithio arnynt, mae rhai'n cael trafferth addasu a gallent ddychwelyd i le cyfarwydd, lle roedd ganddynt ymdeimlad o gymuned. Mae diffyg lleoliadau maeth priodol hefyd yn arwain at fwy o leoliadau y tu allan i'r sir, ac yn aml y tu allan i'r wlad. Mae plant a leolir y tu allan i Gymru yn byw mewn ystod eang o

leoliadau, gan gynnwys Lerpwl, Llundain, Caergaint, Reading, Preston, a Bryste. Lleolir plant eraill yng Nghymru ond y tu allan i ardal eu hawdurdod lleol.

Mae gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn fwy tebygol o allu darparu gwasanaeth o safon o bell nag y mae staff yn yr amgylchedd gwaith cymdeithasol presennol, y mae eu hamser wedi'i rannu rhwng nifer llawer uwch o blant ac y mae eu ffocws yn fwy lleol. Gall gwarcheidwaid neilltuo amser i ymweld â Phlant Digwmni a gweithredu fel pont rhwng awdurdod lleol a phlentyn, tra'n amddiffyn a hyrwyddo dymuniadau ac anghenion plentyn. Mae astudiaeth achos B isod (gan TGP Cymru) yn dangos sut y gall gwarcheidwad ag arbenigedd cyfreithiol, amser penodedig, a swydd annibynnol wneud gwahaniaeth a diogelu buddiannau Plant Digwmni o fewn system nad yw bob amser yn clywed nac yn deall eu hanghenion.

Mae **[B]** *yn Blentyn Digwmni 17 oed a gyrhaeddodd Gymru yn 16 oed. Yn dilyn pryderon am ei iechyd meddwl, symudwyd B i leoliad mewn dinas yn Lloegr, lle mae ganddo ffrindiau. Cafodd asesiad gwybyddol a ddangosodd anhawster dysgu ysgafn, ac mae'n cael trafferth cadw gwybodaeth oherwydd PTSD. Nid oedd wedi cyfarfod ag unrhyw blant yng Nghymru a oedd yn siarad ei iaith nac yn rhannu ei brofiadau a'i gefndir. Cafodd gefnogaeth drwy eiriolaeth gan TGP Cymru.*

Trefnwyd symudiad B ar frys a gosodwyd ef ymhell oddi wrth ei ffrindiau, yr ochr arall i'r ddinas. Dywedodd fod y symud mewn sawl ffordd fel cyrraedd Cymru eto, oherwydd ei fod yn dal i deimlo'n ynysig ac mewn amgylchedd anghyfarwydd. Pan oedd yn gallu ymweld â'i ffrindiau, roedd yn rhaid iddynt gwrdd yn rhywle canolog, ac roedd y daith gron yn cymryd hyd at 3 awr iddo.

Chwe mis cyn pen-blwydd B yn 18 oed, dywedodd ei weithiwr cymdeithasol wrtho y gallai gael ei symud yn ôl i Dde Cymru oherwydd ei anghenion tai ôl-18. Yr unig bosibilrwydd y byddai'n aros lle'r oedd yn byw oedd pe byddai'r gofalwyr maeth yn darparu gofal fel rhan o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod, y teimlent na allent ei wneud. Nid yw'n cytuno â phenderfyniad yr awdurdod lleol mai "ei fudd pennaf" yw dychwelyd i Gymru. Roedd B yn gweithio gyda Gwarcheidwad Masnachu Plant Annibynnol a oedd yn cefnogi ei honiad nad oedd symud er ei fudd pennaf. Gyda'i gilydd, cefnogodd TGP Cymru a Gwarcheidwad B ef i gael mynediad at gyngor cyfraith gyhoeddus am ei safbwynt. Gwnaethpwyd her adolygiad barnwrol llwyddiannus yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol, ar y sail nad oeddent wedi darparu digon o gymorth i ddod o hyd i rywle i B aros yn y ddinas lle'r oedd yn byw.

Roedd gan B Warcheidwad oherwydd ei fod wedi'i nodi fel dioddefwr masnachu mewn plant. Nid oes gan Blant eraill Digwmni yn ei sefyllfa ef y gefnogaeth hon i sicrhau y

5.6 Rhwystrau cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder: Fel y dangoswyd mewn adroddiadau a luniwyd gan Sefydliad Bevan[78], mae rhwystrau difrifol i gyrchu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol yng Nghymru. Mae toriad llym mewn gwasanaethau

cyfreithiol dros y pum mlynedd diwethaf wedi gweld Cymru'n colli'r rhan fwyaf o'i darpariaeth cymorth cyfreithiol mewnfudo, ac wedi disbyddu arbenigedd cyfreithiol yn ddifrifol. Mae lefelau camfanteisio a chyngor heb ei reoleiddio yn uchel iawn. Byddai gwarcheidwaid yn cynorthwyo plant i gael mynediad at wasanaethau cyfreithiol o fewn a thu allan i Gymru a byddai cael hyfforddiant i IAA (OISC gynt) Lefel 2 yn eu galluogi i arwain plant i ffwrdd o beryglon cyfreithiol a all niweidio eu hachosion cyfreithiol yn ddifrifol tra byddant yn aros am gyngor cyfreithiol o safon. Byddai Hyfforddi Gwarcheidwaid hyd at Lefel 2 IAA hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yng Nghymru ac yn darparu cronfa o arbenigedd cyfreithiol i ategu'r system gyfreithiol ac i alluogi'r system gyfreithiol o bosibl i dynnu ohoni.

Er mwyn cefnogi Plant Digwmni yn effeithiol, mae angen i unrhyw un sy'n eiriol drostyn nhw allu ymgysylltu'n weithredol â'r broses fewnfudo a pheidio â thorri'r gyfraith. Nid 'cefnogi' neu sicrhau bod barn plant yn cael ei chlywed yn unig yw rôl gwarcheidwad, mae'n ymwneud â sicrhau bod pethau'n gweithio yn y ffordd y dylent. Pe bai angen, er enghraifft, gallai Gwarcheidwad weithredu fel cyfaill cyfreitha mewn achosion apêl. Gall gwarcheidwad sicrhau bod Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC's) yn cael eu cefnogi'n llawn i lywio system loches gymhleth, a bod eu hawliau cyfreithiol yn cael eu cyflawni.

Oherwydd yr anhawster i ddod o hyd i gynrychiolaeth gyfreithiol, mae'n bosibl y bydd Plentyn Digwmni sydd ar fin troi'n oedolyn yn cael ei wahodd i gyfweliad sylweddol ar ei gais am loches cyn i unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol gael ei gyflogi. Yn y sefyllfa hon gall yr awdurdod lleol neu gynrychiolydd y plentyn ofyn am ohirio'r Cyfweliad.

Gofynnodd gweithiwr cymdeithasol i TGP Cymru am help yn achos B, Plentyn Digwmni a oedd wedi cael ei gyfweliad lloches parhaol heb weld cyfreithiwr neu gynrychiolydd cyfreithiol arall. O ganlyniad, gwrthodwyd lloches i B.

Roedd gweithiwr cymdeithasol B wedi cwestiynu'r diffyg cynrychiolaeth gyfreithiol mewn cyfweliad, ond dywedodd rhywun yn y Swyddfa Gartref ei fod yn iawn i'r cyfweliad fynd yn ei flaen. Heb gyngor gwybodus, roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cytuno i hyn ddigwydd. Mae B bellach yn apelio, gyda chefnogaeth TGP Cymru, a lwyddodd i ddod o hyd i gynrychiolydd mewnfudo a oedd yn fodlon ymgymryd ag apêl y person ifanc hwn.

Byddai Gwarcheidiaeth yn osgoi sefyllfaoedd fel hyn, trwy sicrhau bod gan bob Plentyn Digwmni weithiwr proffesiynol profiadol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw i sicrhau bod eu hawliau cyfreithiol yn cael eu cynnal. Mae gwrthod statws yn arwain at golli hawliau. Hyd yn oed os bydd apêl yn llwyddiannus, mae plentyn y gwrthodir lloches iddo yn wynebu oedi sylweddol cyn cael statws a symud ymlaen â'i fywyd. Gall sefyllfa o'r fath effeithio'n ddifrifol ar iechyd meddwl a lles plentyn.

5.7 Gwahaniaethau o ran cefnogaeth: Mae EYST yn adrodd am anghysondebau yn y cymorth ariannol wythnosol a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol, gyda chymaint â £18 yr wythnos o wahaniaeth rhwng rhai awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae anghysondebau o ran mynediad at adnoddau hanfodol, megis mynediad hamdden, trafnidiaeth, offer TG, arian Eid a Nadolig, cymorth i gael mynediad at gysylltiadau diwylliannol a chrefyddol, ac ysgol a hanfodion eraill. Mewn rhai achosion, mae plant o fewn yr un gymuned a hyd yn oed yr un lle byw, yn derbyn symiau gwahanol o gymorth ariannol a chymorth arall. Mae EYST hefyd yn codi pryderon ynghylch plant yn methu â chael addysg ffurfiol am gyfnodau hir. Byddai un gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn helpu i greu cysondeb ar draws awdurdodau lleol, gan ddarparu cyngor, cymorth a gwybodaeth i staff awdurdodau lleol, ac eiriolaeth i blant.

6. Pam fod angen i'r gwasanaeth fod yn annibynnol?

Mae'n hollbwysig bod gwasanaeth Gwarcheidiaeth yn cael ei gynnig yn annibynnol ar awdurdodau lleol a'r system ofal. Rhaid i warcheidwad weithredu ar ran y plentyn yn unig. Ar adegau, efallai y bydd angen iddynt herio'r awdurdod lleol neu gefnogi plant sy'n ceisio adolygiad barnwrol o benderfyniadau awdurdod lleol. Er y dylai Gwarcheidwaid fod yn gefnogol i awdurdodau lleol a chanolbwyntio ar gydweithio, efallai y bydd adegau pan fydd angen iddynt ddarparu her gadarn ac annibynnol i amddiffyn a hyrwyddo hawliau cyfreithiol plentyn. Ni fyddai gwasanaeth Gwarcheidiaeth annibynnol yn cael ei ddylanwadu gan bwysau o'r brig i'r bôn neu adnoddau cyfyngedig awdurdodau lleol sy'n aml yn arwain at borthgadw gwasanaethau. Mae'r astudiaeth achos uchod, a ddarparwyd gan TGP Cymru, yn amlygu'r anghysondeb o ran dull a geir weithiau o fewn yr un awdurdod lleol, ac yn dangos yr angen am eiriolaeth annibynnol a chymorth cyfreithiol sydd weithiau'n ddwys ac yn barhaus.

Ym mis Chwefror 2024, cyfeiriodd TGP Cymru 2 o blant (D ac E), a oeddynt yn honni eu bod o dan 18 oed, i'r un awdurdod lleol yng Nghymru, drwy Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu Plant (MARF). Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i ymateb i bryderon diogelu ac i ddarparu llety a chymorth i blant yn eu hardal sydd ei angen.

Er mai'r ymateb cychwynnol mewn un achos oedd y byddai'r awdurdod lleol yn gwneud trefniadau i weithwyr cymdeithasol gysylltu â D a'i gyfarfod, cafodd y penderfyniad hwn ei ddiystyru gan brif weithiwr cymdeithasol Derbyn ac Asesu, a nododd fod y Swyddfa Gartref wedi cynnal asesiadau oedran yn y ddau achos (D ac E). Honnodd y gweithiwr fod angen i TGP Cymru herio asesiadau'r Swyddfa Gartref cyn y byddai'r awdurdod lleol yn darparu amddiffyniad a chefnogaeth. Aeth y gweithiwr cymdeithasol ymlaen i ddatgan bod Plant Digwmni yn cyrraedd drwy'r Gwasanaeth Trosglwyddo Cenedlaethol, a bod yr awdurdod lleol ond yn derbyn plant yn y modd yma, yn seiliedig ar asesiad gan y Swyddfa Gartref.

Eglurodd Rheolwr Prosiect TGP Cymru gylch gorchwyl gwaith eiriolaeth TGP o amgylch asesiadau oedran, a gwahaniaethodd rhwng asesiad oedran gan weithwyr cymdeithasol a'r Swyddfa Gartref. Roedd TGP hefyd yn gallu nodi pa mor aml y mae plant yn cael eu derbyn trwy'r llwybr atgyfeirio yr oeddent yn gofyn amdano. Ni dderbyniwyd hyn, ac felly gofynnodd TGP Cymru am gyngor ar gyfer D ac E trwy arbenigwr anghydfodau oed cyfraith gyhoeddus.

Oherwydd camau gweithredu gan yr arbenigwr cyfreithiol, gwnaed yr awdurdod lleol i dderbyn ei ddyletswydd cyfreithiol, ac wedi hynny trefnodd asesiadau oedran annibynnol gyda darparwr arbenigol. Ni chynhaliwyd yr asesiadau hyn tan fis Gorffennaf ac Awst 2024. Er gwaethaf asesiad oedran cadarnhaol, mae'r awdurdod lleol wedi bod yn araf i ddod o hyd i leoliad addas i un o'r bechgyn, er ei fod yn byw mewn llety anaddas.

7. Oni fydd gwasanaeth arall yn arwain at "orlwytho proffesiynol"?

Mae tystiolaeth yn dangos mai diffyg cefnogaeth sydd gan Blant Digwmni yn eu bywydau ar hyn o bryd, nid gormod. Dangosodd ymatebion i'n cais Rhyddid Gwybodaeth yn 2024 mai gweithwyr cymdeithasol, ar gyfer 33 y cant o Blant Digwmni yng Nghymru, yw'r unig weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chysylltu â chyfreithwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yr heddlu, a swyddogion y Swyddfa Gartref ar ran y plentyn.

Bydd gwasanaeth Gwarcheidiaeth cenedlaethol yn ategu gwasanaethau presennol, ac yn cyfuno rhywfaint o ddarpariaeth mewn un rôl. Bydd hyn yn amddiffyn plant rhag gorlwytho proffesiynol ac yn darparu pwynt cyswllt, arweiniad a chymorth dibynadwy.

8. Sut byddai'r gwasanaeth yn cael ei ariannu?

Rhaid i wasanaeth Gwarcheidiaeth gael ei ariannu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn gynaliadwy ac yn darparu gwasanaeth cyson a theg, wedi'i gefnogi gan gronfeydd craidd. Mae'n hanfodol bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac nid gan lywodraeth y DU, fel bod plant yn gallu manteisio ar y buddion o fod mewn Cenedl Noddfa, ac un sydd ag ymrwymiad wedi'i ddatgan i barchu a rhoi sylw dyledus i hawliau'r plentyn.

9. Casgliad

Rydym yn galw am wasanaeth Gwarcheidiaeth ar gyfer Plant Digwmni sydd wedi'i wreiddio mewn fframweithiau cyfraith, polisi a chyflawni yng Nghymru. Rydym wedi amlinellu model a fyddai'n darparu gwasanaeth hanfodol, gyda'r adnoddau a'r arbenigedd angenrheidiol i gefnogi plant agored i niwed o'r fath. Dylai rymuso Plant Digwmni yn weithredol i allu cael mynediad at wasanaethau sylfaenol, i lywio'r system loches gymhleth ac i hawlio eu holl hawliau. Dylai sicrhau bod barn yr holl Blant Digwmni yn cael eu clywed a'u bod yn cael eu pwyso a'u mesur, a'u cynnwys yn weithredol wrth ddylunio, darparu a monitro'r gwasanaeth. Yn olaf, dylai'r gwasanaeth fod yn annibynnol, gwarantu atebolrwydd i Blant Digwmni, a'u trin yn gyfartal heb wahaniaethu.

Gwasanaeth Gwarcheidiaeth annibynnol ar gyfer yr holl Blant Digwmni yng Nghymru yw'r unig ffordd i roi'r cymorth a'r amddiffyniad sydd eu hangen arnynt i Blant Digwmni.

---

[1] Cymdeithas y Plant, Sefydliad Bevan, Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru, Y Groes Goch Brydeinig, *Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ar gyfer yr Holl Blant Digwmni yng Nghymru: papur briffio ymchwil* 2024 https://www.bevanfoundation.org/resources/yn-galw-am-wasanaeth-gwarcheidiaeth-ar-gyfer-pob-plentyn-ar-ei-ben-ei-hun-yng-nghymru-syn-ceisio-lloches/

[2] Llywodraeth Cymru, *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Ymateb Llywodraeth Cymru* (Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Sylwadau Terfynol CCUHP 2023), t.82, Gorffennaf 2024 https://www.gov.wales/united-nations-convention-rights-child-welsh-government-response-2024

[3] Cyfarfod Llawn y Senedd, 10/19/2024 - para 473 https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/14141?lang=cy-GB#A91195

[4] Comisiynydd Plant Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-4* https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2024/10/CCfW_ARA23-24-CYMREAG-1.pdf

[5] Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/unaccompaniedasylumseekingchildrenbeinglookedafteratthe31march-by-localauthority

[6] Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, *Plant sydd ar yr Ymylon*, 2024 https://senedd.cymru/media/mwvhsvt4/cr-ld16844-w.pdf

[7] Sefydliad Bevan, *Free at Source Immigration Legal Services in Wales: a snapshot*, Gorffennaf 2024 https://www.bevanfoundation.org/resources/briefing-immigration-legal-services-wales/

[8] Sefydliad Bevan, *Experiences of Justice: seeking legal help for immigration and asylum in Wales* (cyfres), 2024 https://www.bevanfoundation.org/resources/experiences-of-justice-seeking-legal-help-for-immigration-and-asylum-in-wales/